27 Ebrill 2020

Annwyl Gyfaill,

Cefnogi gofalwyr anffurfiol yn ystod y pandemig COVID-19

Fe hoffem ni ddiolch o galon i chi a'r holl gydweithwyr fferylliaeth am eich ymroddiad i ofal cleifion yn ystod y pandemig COVID-19.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod timau fferyllol wedi addasu'n gyflym ac wedi gwneud newidiadau priodol i sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu parhau i gael budd o fferylliaeth gymunedol ledled Cymru. Fe fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bawb sy'n mynychu fferyllfa gymunedol, gan gynnwys gofalwyr di-dâl ac anffurfiol – y rheini sy'n cefnogi ffrind neu aelod o'r teulu sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethiwed i sylwedd, yn methu ag ymdopi heb eu cefnogaeth.

Mae'n bwysig iawn cefnogi gofalwyr sydd angen meddyginiaeth yn ystod y pandemig presennol. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Gofalwyr Cymru, Cymdeithas Ffarmacolegol Prydain a Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi bod yn cydweithio i ddeall y pwysau sy'n wynebu gofalwyr yn ystod yr amser hwn ac i gynnig ffyrdd y gellir eu cefnogi.

Rydyn ni wedi clywed mai'r problemau allweddol sy'n wynebu gofalwyr di-dâl wrth gael gafael ar feddyginiaethau ar hyn o bryd ydy:

- Ymdopi â chiwiau hir yn y fferyllfa o ganlyniad i fesurau cadw pellter cymdeithasol
- Cael gafael ar slotiau danfon meddyginiaethau a threfnu'r rhain
- Gofalwyr ifanc yn cael gwrthod mynediad i fferyllfeydd

Fe hoffem ni felly alw ar dimau fferyllol i gefnogi gofalwyr trwy:

- Roi cefnogaeth a gwybodaeth i gynorthwyo gofalwyr di-dâl yn y siop
- Caniatáu i 2 o bobl fod yn y siop pan nad oes gan y gofalwyr unrhyw ddewis ond mynd â'r person y mae'n gofalu amdano/amdani gyda nhw i mewn i'r fferyllfa
- Addasu pethau fel bo angen i gefnogi'r gofalwr a'r person y mae'n gofalu amdano/ amdani
- Ystyried blaenoriaethu gofalwyr di-dâl pobl agored i niwed / sy'n cael eu gwarchod i gael slotiau danfon meddyginiaethau
- Adolygu canllawiau ar 'Blant yn casglu meddyginiaethau o fferyllfa' a chydnabod mai, i rai teuluoedd, gofalwyr ifanc ydy'r unig bobl ar yr aelwyd sy'n gallu casglu meddyginiaethau

Mae'n gallu bod yn anodd nodi gofalwyr ifanc, ond mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Llywodraeth Cymru wedi datblygu llythyr ar gyfer gofalwyr ac rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn helpu i'w nodi. Fe fyddem ni'n ddiolchgar iawn pe baech chi a'ch timau'n gallu ymgyfarwyddo â'r ID hwn i sicrhau ymateb priodol – gwelwch y copi sydd wedi'i atodi. Mae yna hefyd lawer o gynlluniau adnabod lleol ategol y mae'n bwysig bod yn ymwybodol ohonyn nhw. Fe fyddem ni'n gofyn eich bod, ar hyn o bryd, yn mabwysiadu dull rhagweithiol ac agored o fynd ati i nodi gofalwyr di-dâl a allai fod angen cymorth.

Byddwn ni hefyd yn rhoi cyngor i ofalwyr i'w helpu nhw i wneud yn fawr o'u tîm fferyllol yn ystod yr amser hwn – gwelwch y copi o'r cyngor sydd wedi'i atodi i gael rhagor o wybodaeth.

Rydyn ni'n falch o ymateb timau fferyllol i'r pandemig Covid-19. Diolch yn fawr am barhau i gefnogi cleifion a gofalwyr yn eich cymunedau.

Cofion cynnes

Simon Hatch
Cyfarwyddwr
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

Elen Jones
Cyfarwyddwr
RPS Cymru

Claire Morgan
Cyfarwyddwr
Gofalwyr Cymru

Russell Goodway
Prif Swyddog Gweithredol
Fferylliaeth Gymunedol Cymru